


Pan Gyfarfu Cynhadledd Heddwch Ryngwladol yn Aberystwyth



Er i'r cadoediad a ddaeth â diwedd i'r ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf gael ei arwyddo ar 11 Tachwedd 1918, fe gymerodd chwe mis pellach o drafod yng Nghynhadledd Heddwch Paris i lunio telerau Cytundeb Versailles. Y Cytundeb hwn, a arwyddwyd ar 28 Mehefin 1919, a ddaeth â'r rhyfel rhwng yr Almaen a Phwerau'r Cyngrheiriaid sef Prydain, Ffrainc, yr Eidal, Siapan a'r Unol Daleithiau i ben.

Yng Nghynhadledd Paris roedd yr Arlywydd Woodrow Wilson o'r Unol Daleithiau wedi rhoi gerbron ei Bedwar Pwynt ar Ddeg o egwyddorion ar gyfer heddwch byd-eang a oedd wedi eu hamlinellu yn gynharach mewn darlith yn Ionawr 1918. Yn ogystal â pholisïau ar ddemocratiaeth, masnach rydd, hunanbenderfyniad a diarfogi, nodai'r pedwerydd pwynt ar ddeg: 'Dylid ffurfio cymdeithas gyffredinol o genhedloedd ar sail cyfamodau a gynlluniwyd i greu gwarantau cydymddibynnol o annibyniaeth

gwleidyddol a chywirdeb tiriogaeth Taleithiau, mawr a bach yn gyfartal.'

Er gwaethaf sgeptigaeth David Lloyd-George, George Clemenceau, Prif Weinidog Ffrainc, a Vittorio Orlando, cynrychiolydd yr Eidal, derbyniwyd pwyntiau Woodrow yn gyffredinol Wilson a dechreuodd y syniad o Gynghrair y Cenhedloedd ymffurfio.


I hyrwyddo'r syniad o Gynghrair y Cenhedloedd yng Ngwledydd Prydain, ffurfiwyd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd ar 13 Hydref 1918 trwy uno Cynghrair Cydgymuned y Cenhedloedd Rhydd a Chymdeithas Cynghrair y Cenhedloedd, dau fudiad a oedd eisoes wedi bod yn ymgyrchu dros sefydlu trefn newydd o gysylltiadau rhyngwladol a heddwch byd-eang. Ym mis Tachwedd cyhoeddodd yr Undeb newydd raglen a alwai am 'gynghrair o bobl rydd sy'n dymuno rhoi diwedd ar ryfel am byth'. Ac i'r diben hwn dechreuodd ymgyrch cyhoeddusrwydd eang i esbonio ei nod a chynyddu cefnogaeth boblogaidd i'r Gynghrair. Rhannwyd gwledydd Prydain i ddeuddeg rhanbarth a ffurfiwyd rhwydwaith o ganghennau undeb drwy'r pedair gwlad gyda threfnyddion cyflogedig yn gweithredu mewn sawl rhanbarth. Pan ffurfiwyd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd yn 1918 roedd ganddi 3,217 o aelodau, ond erbyn 1922 roedd y nifer wedi cynyddu i dros 200,000 o aelodau.

Ariannwyd y gweithgareddau hyn yn bennaf gan David Davies, y gwleidydd o Gymro a oedd yn ŵr busnes, cymwynaswr a oedd yn ôl Gilbert Murray, Cadeirydd Undeb Cynghrair y

Cenhedloedd, mor anhepgor ei gefnogaeth fel mai 'dim ond rhoddion hael o gyfoeth personol David Davies a gadwodd yr undeb rhag caledi ariannol.'

Roedd David Davies yn wŷr i David Davies, Llandinam, sylfaenydd cwmni glo yr Ocean, ac un o brif noddwyr Prifysgol Aberystwyth pan y'i sefydlwyd yn 1872. Ganwyd David Davies yr wŷr yn Llandinam yn 1880, ac ar ôl mynychu Coleg King's, Caergrawnt, aeth i weithio i'r cwmni teuluol a dod yn AS dros sir Drefaldwyn yn 1905. Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf ffurfiodd ac arweiniodd 14^{eg} Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig Caernarfon a Sir Fôn ar Ffrynt y Gorllewin o fis Rhagfyr 1915 hyd fis Mehefin 1916 pan alwodd David Lloyd George ef yn ôl i Lundain i fod yn ysgrifennydd seneddol preifat iddo.

Yn ystod ei wasanaeth ar faes y gad roedd David Davies wedi dod yn fwyfwy beirniadol o wleidyddion eraill, arweinwyr milwrol, y Cynghreiriaid a sut roedd y rhyfel yn cael ei chynnal, ond roedd parhau â'i feirniadaeth ar ôl dychwelyd i San Steffan a rhoi cyngor parhaol i Lloyd George ar amryw faterion, ac yn arbennig penodiadau gwleidyddol ar ôl iddo ddod yn Brif Weinidog ym mis Rhagfyr 1916, yn dân ar groen ei arweinydd.



David Davies

Ar 24 Mehefin 1917 ysgrifennodd Lloyd George at David Davies gan ddweud, *'I regret having to tell you that there is a concerted attack to be made upon me for what is called "sheltering" in a soft job a young officer of military age and fitness...I hear that Welsh parents – North and South – are highly indignant and do not scruple to suggest that your wealth is your shield. I know that you are not responsible, but they blame me, and as I know that you are anxious not to add to my difficulties in the terrible task entrusted to me, I am sure you will agree that I am taking the straight course intimating to the Committee set up to re-examine men in public service that in my judgement you can render better service as a soldier than in your present capacity.'*

Nid oes tystiolaeth bod y cyhuddiadau hyn yn wir, nac ychwaith bod yr 'ymosodiadau' yn rhai real, a chred amryw yn awr iddynt gael eu creu gan Lloyd George ei hun er mwyn cael gwared â David Davies a'i feirniadu cyson. Profodd David Davies ei hun yn llawer mwy anrhydeddus na Lloyd George gan iddo ymateb drwy ddweud, *'I need hardly say that I should hate to be a source of embarrassment to you...I beg formally to resign my post in the Secretariat.'*

O ganlyniad i'w ymddeoliad gorfodol o wleidyddiaeth y dydd rhyddhawyd David Davies i'w daflu ei hun i ymgyrch Cynghrair y Cenhedloedd. Cyn diwedd y rhyfel roedd wedi cael ei ddychryn gan y lladd a welodd ac roedd yn benderfynol o wneud y cyfan a allai i sicrhau na

châi'r fath wastraff bywyd ei ailadrodd, ac i'r perwyl hwnnw ymgyrchodd yn egniol a diflino ar ran Cynghrair y Cenhedloedd.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd ym mis Awst 1918, awgrymodd David Davies am y tro cyntaf sefydlu Undeb Cymru o Gynghrair y Cenhedloedd gan ddweud bod gan Gymru ran bwysig i'w chwarae yn yr ymgyrch dros heddwch byd-eang. Y flwyddyn ganlynol, er mwyn hyrwyddo'r amcanion hyn, rhoddodd David Davies a'i chwiorydd Gwendoline a Margaret £20,000 i Brifysgol Aberystwyth i waddoli Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, neu Gysylltiadau Ryngwladol fel roedd yn well ganddo ef ei galw, er cof am fyfyrwyr y Coleg fu farw neu a glwyfwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn 1922 enwyd y Gadair – y Gadair academiaidd gyntaf mewn Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau neu Faterion Ryngwladol i gael ei sefydlu unrhyw le yn y byd – yn Cadair Woodrow Wilson Mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol er anrhydedd i Arlywydd America a'i gefnogaeth i Gynghrair y Cenhedloedd.

Ym mis Mai 1920 cyfrannodd David Davies £30,000 i gronfa waddoli er mwyn sefydlu Cyngor Cenedlaethol Cymreig o Undeb Cynghrair y Cenhedloedd. Erbyn 1922 roedd iddo 280 o ganghennau lleol, ac erbyn 1926 roedd y nifer wedi cynyddu i 652.

Yn ogystal ag ariannu gweithgareddau'r Undebau yng Nghymru a Phrydain, rhoddodd David Davies yn hael o'i amser a'i egni i deithio ar draws Ewrop yn hyrwyddo gwaith y Gynghrair. Yn gynnar yn 1919, fel un o gynrychiolwyr Prydain, aeth i gynhadledd ym Mharis a oedd yn gyfrifol am ffurfio Ffederasiwn Rhyngwladol o Gymdeithasau Cynghrair y Cenhedloedd (IFLNS), ac ym mis Rhagfyr yr un flwyddyn arweiniodd dirprwyaeth i Gyngres Ffederasiwn Rhyngwladol o Gymdeithasau Cynghrair y Cenhedloedd ym Mrwsel.

Roedd y Ffederasiwn yn rhwydwaith o gymdeithasau mewn gwledydd a oedd yn aelodau o Gynghrair y Cenhedloedd a gefnogai ac hyrwyddai ymdrechion y Gynghrair. Cydnabuwyd ymroddiad David Davies i waith y Gynghrair yn 1923 pan gafodd ei wneud yn is-lywydd yr IFLNS, ac yn 1925 fe'i gwnaethpwyd yn Rheolwr.

O'r cychwyn roedd y Ffederasiwn wedi cynnal cynadleddau blynyddol fel rhagarweiniad i gyfarfodydd Cynulliad Cynghrair y Cenhedloedd yng Ngenefa ym mis Medi. Yn 1919 cynhaliwyd tair cynhadledd: yn Paris, Llundain a Brwsel; ond wedi hynny dim ond un Gyngres a gâi ei chynnal bob blwyddyn: Milan yn 1920; Genefa yn 1921; Prague yn 1922; Vienna yn 1923; Lyon yn 1924, a Warsaw yn 1925. Yn dilyn Cynhadledd Locarno yn 1925, pan benderfynwyd caniatáu i'r Almaen fod yn Aelod o Gyngor Cynghrair y Cenhedloedd, dinas Dresden oedd i gynnal Gyngres yr IFLNS yn 1926, ond pan wyrdrowyd y penderfyniad i gynnwys yr Almaen ym mis Mawrth 1926 fe ddaeth yn amhosibl i'r Ffederasiwn ymweld â'r Almaen. Pan ddaeth yn amlwg fod yna berygl na châi'r Gyngres ei chynnal o gwbl y flwyddyn honno, cynigiodd David Davies Aberystwyth fel lleoliad. Derbyniwyd y cynnig.

Oherwydd ei gysylltiadau teuluol â'r dref a'r Brifysgol, Aberystwyth oedd y dewis amlwg i David Davies. Fel ei dad Edward Davies (er cof amdano ef y codwyd ac yr enwyd Labordai Cemegol Edward Davies), a'i dad-cu o'i flaen, roedd David Davies wedi bod ers blynyddoedd

yn aelod o Lys y Llywodraethwyr, ac yn 1926, yn dilyn marwolaeth Syr John Williams ym mis Mai, gwnaed ef yn Llywydd.

Cyswllt arall rhwng Cynghrair y Cenedloedd ac Aberystwyth oedd Mrs Annie Jane Hughes-Griffiths Llywydd Cyngor Cenedlaethol Cymru. Roedd hi yn un o drefnwyr Cofeb Gwragedd Cymru i Wragedd yr Unol Daleithiau ac arweinydd y ddirprwyaeth a aeth a'r ddeiseb o 400,000 o lofnodion i Efrog Newydd ym mis Chwefror 1924; roedd hi hefyd yn chwaer i John Humphrey Davies, prifathro Coleg Aberystwyth.

Yn ogystal â'i gysylltiadau ag Aberystwyth roedd David Davies hefyd yn gyfarwyddwr rheilffordd y Great Western, ac i gludo'r 200 o gynrychiolwyr o Lundain i Aberystwyth trefnodd drên arbennig ar eu cyfer, a thalodd eu holl dreuliau o'r eiliad yr esgynnodd y cynrychiolwyr i'r trên. Neilltuwyd gwestai'r dref ar eu cyfer a threfnwyd i staff y Coleg i fod yn dywyswyr a chyfieithwyr.

Yn rhifyn 2 Gorffennaf o'r Cambrian News, o dan y pennawd, 'Towards World Peace', dyma sut yr adroddwyd am y cynrychiolwyr yn cyrraedd Aberystwyth:

Towards World Peace.
League Societies Conference.
Important Meetings at Aberystwyth.

The 10th Plenary Congress of the League of Nations opened at Aberystwyth on Tuesday, and the meetings throughout the week have proved a source of great interest to large numbers of the general public, while the warmth of the reception accorded has both surprised and gratified the delegates. The importance of the work which the various Societies are carrying out is being more generally recognised, and the residents of Aberystwyth have not been slow to show their appreciation of the honour which Mr. Dd. Davies, M.P., has done to the town in arranging for the conferences to take place within its borders. Sound and solid work was done at every one of the meetings, but the only regret many have had is that their knowledge of other languages has not been sufficient to enable them to understand the detail of the proceedings. On Wednesday evening a pilgrimage to Tregaron, the birthplace of Henry Richard, was attended by almost every delegate.

Glorious summer weather and a crowd of several thousands lining decorated streets vied to welcome the delegates to the tenth plenary congress of the International Federation of League of Nations Societies on their arrival, shortly before 3 o'clock on Tuesday at Aberystwyth, where the Congress meetings were held during the week. The delegates, numbering over 200, among whom were a number of women, were brought from London by special train and conveyed by motor cars, lent by residents, to their various hotels. A large crowd lined the approach to the station and as the cars drove through Terrace-road and to the Marine-parade, there were many bursts of cheering.

At the Station the Mayor (Councillor Llewelyn Samuel) and members of the Corporation, with the Town Clerk (Mr. T. J. Samuel, O.B.E.) in their robes of office, welcomed the delegates.

Interest was centred in the arrival of Count Bernstorff, who heads the German deputation, and there were not a few anxious inquiries as to which of the delegates was the world-famous former German Ambassador to the United States.

There were many delegates of international repute and all showed much pleasure at the warmth of the welcome which they received on their first visit to Wales.

for all he had done and was doing, for that as well as other worthy objects. Aberystwyth residents hoped the delegates would accept their sincere welcome and would feel quite at home during the visit. They hoped the delegates would have an opportunity of seeing some Welsh scenery and have fine weather, so that they might retain pleasant memories of their visit. "Above all," concided His Worship, "let us hope that your meetings may be of advantage to attain the great purposes of your Congress."

Mrs. Hughes Griffiths, president of the Welsh National Council, proposed thanks to the Mayor and Mayoress for their hospitality, referring to movements inaugurated at Aberystwyth and adding that the Welsh Council of the League of Nations Union was started at Aberystwyth, and that the Memorial from the Women of Wales to the women of America was initiated in the town. (Applause). The delegates were greatly impressed with the munificence of the reception by the people of Aberystwyth. She hoped they would forward the good cause of peace on earth and goodwill towards men.

Mr. Dollfus, president, also thanked the Mayor on behalf of the Federation for the extremely generous reception. It was a great pleasure to hold the Congress in Wales, — the noble little country which had been in

Glorious summer weather and a crowd of several thousands lining decorated streets combined to welcome the delegates to the tenth plenary congress of the International Federation of the League of Nations Societies on their arrival shortly before 3 o'clock on Tuesday at Aberystwyth, where the Congress meetings were held during the week.

The delegates numbering over 200, among whom were a number of women, were brought from London by special train and conveyed by motor cars, lent by residents, to their various hotels. A large crowd lined the approach to the station and as the cars drove through Terrace-road and to the Marine-parade, there were many bursts of cheering.

Â'r adroddiad ymlaen ar draws pum colofn gyfan i gofnodi dyfodiad cynrychiolwyr megis Mr Theodore Marburg, cyn-lysgennad yr Unol Daleithiau i Frasil (America); Dr Constantin Dumba (Awstria); yr Athro Gilbert Murray, Syr Willoughby Dickinson, Iarll Gladstone, Mr David Davies Esgob Tyddewi (Prydain); y Seneddwr Brabec a Dr Medinger (Tsiecoslofacia); M.

Cambrian News 02/08/2016

Aulard a'r Athro Emile Borel (Ffrainc); Iarll Johann Heinrich von Bernstorff (Yr Almaen); M. A. van Ryckevorsol (Yr Iseldiroedd); M. de Paikert (Hwngari); Mr Bolton Waller (Iwerddon); yr Athro Amedeo Giannini (Yr Eidal); yr Athro Eiichi Makino (Siapan); M. S.E. Vewsmans (Latfia); yr

Athro Br. Dembiski a'r Iarll Los (Gwlad Pwyl); Mlle. Helene Vacaresco (Rwmania); M. de Starya Lipy a M. Britantchaninoff (Rwsia); yr Athro Eflorrieta (Sbaen) a'r Barwn Adelsward (Sweden) a Mr Roger Dollfuss (y Swistir). Rhestrir hefyd y pynciau fyddai dan drafodaeth yn ystod yr wythnos: diarfogi; statws lleiafrifoedd; caethwasiaeth; mewnfudo; agweddau rhyngwladol ar y diwydiant glo; ymdrin ag estroniaid yn gyfartal, a nifer o faterion yn ymwneud ag addysg.

Prif leoliad cyfarfodydd y Gyngres oedd Neuadd y Brifysgol ar Ffordd y Gogledd (a ddinistriwyd gan dân yn 1933), ac yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd brynhawn dydd Mawrth 29^{ain}, croesawyd y cynrychiolwyr gan Mr Roger Dollfuss, llywydd Ffederasiwn Rhyngwladol o Gymdeithasau Cynghrair y Cenedloedd, a ddiolchodd i Faer Aberystwyth, y Cynghorydd Llewelyn Samuels, ar ran y Ffederasiwn gan ddweud, *it was a great pleasure to hold the Congress in Wales, – the noble little country which had been in the vanguard for the works of peace. That was emphasised by the fact that one out of 17 of the population was a member of the League of Nations Union.*



Fe'i dilynwyd gan David Davies a groesawodd aelodau'r IFLNS i Aberystwyth a Chymru ar ran Cyngor Cymru o Gynghrair y Cenedloedd gan nodi bod Cymru'n *a small country, but it was a privilege of the smaller countries to find a solution of many difficulties.* Yna cynigiodd Mrs Hughes Griffiths, llywydd Cyngor Cenedlaethol Cymru, *a proposed thanks to the Mayor and Mayoress for their hospitality, referring to movements inaugurated at Aberystwyth and adding that the Welsh Council of the League of Nations Union was started at Aberystwyth and that the Memorial from Women of Wales to the women of America was initiated in the town.*

Yn dilyn y cyfarfod, cynhaliwyd derbyniad gan Faer y Dref yn Neuadd y Plwyf cyn i'r Gyngres ddechrau ar ei gwaith o ddifrif yn y cyfarfod hwyrol drwy ethol aelodau o'r Pwyllgor a derbyn adroddiadau am weithgareddau Undebau Cynghrair y Cenedloedd mewn nifer o wledydd.

Trannoeth cynhaliwyd cyfarfodydd gan y Pwyllgor ar Gwestiynau Rhyngwladol, y Pwyllgor Addysg a Phropaganda, y Pwyllgor Lleiafrifoedd Cenedlaethol, y Pwyllgor Cwestiynau Economaidd a Chymdeithasol, y Pwyllgor Diarfogi, y Pwyllgor Cwestiynau Cyfreithiol, a'r Pwyllgor Cwestiynau Gwleidyddol. Ystyriodd y Pwyllgor Addysg a Phropaganda *the introduction of an International Auxiliary language as a means of communication, urging that school children should be taught Esperanto and a resolution endorsing the British Association's choice of Esperanto was adopted... was carried by 8 votes to one, there being two abstentions.* Mlle. Varesco, from Rumania *opposed the teaching of Esperanto. When Esperanto was not merely spoiled Rumanian, it was spoiled Spanish or spoiled English,* while M. de Paikert from Hungary *referred to Esperanto as a linguistic monstrosity.*

Yn yr hwyr aeth bron pob un o'r cynrychiolwyr ar bererindod i Dregaron, tref enedigol Henry Richard, yr Apostol Heddwch. Llywyddwyd cyfarfod yn Neuadd Goffa Tregaron gan Esgob Tyddewi pan dalodd deyrnged i gyfraniadau niferus Henry Richards i heddwch y byd, gan gynnwys y cyfarfod Cyngres Heddwch answyddogol cyntaf roedd Henry Richards a'r Americanwr Elihu Burritt wedi ei drefnu ym Mrwsel ym Medi 1848 ac a fynychwyd gan oddeutu 200 o gynrychiolwyr i ystyried agenda a oedd i bob pwrpas yr un ag agenda Cyngres 1926.

Am 9.00 fore dydd Iau 1 Gorffennaf ailgydiwyd yn y cyfarfodydd swyddogol pan drafododd y Pwyllgor ar Gwestiynau Rhyngwladol dderbyn aelodau newydd, yn benodol Palestina. Ymhlith y pynciau eraill a drafodwyd oedd cenedloedd heb dinasyddiaeth, yr Almaen a'r Gynghrair a Llys Cyfiawnder Rhyngwladol. Yn y prynhawn, ar wahoddiad Cyngor Tref Aberystwyth, aethpwyd ar daith i Pontarfynach.

Gyda'r nos llywyddodd David Davies gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Brifysgol a fynychwyd gan rhwng 2,000 a 3,000 o bobl. Gobeithiwyd y byddai nifer o'r cynrychiolwyr yn annerch y cyfarfod er mwyn ennill mwy o gefnogaeth i waith cadarnhaol y Gynghrair ym meysydd diarfogi a chydweithio a chymodi rhyngwladol. Ond pan alwodd y Cadeirydd ar Iarll Bernstorff, arweinydd y ddirprwyaeth Almaenig, i siarad gwaeddodd dyn o'r gynulleidfa, *"What about the Lusitania?" The Chairman asked for order and the man was requested to be quiet. He, however, persisted in shouting "What about the Lusitania, I say?" "You dirty dog." A police sergeant conducted the man out of the hall during which time he was still shouting "You dirty dog. You dirty German".*

Ceisiodd David Davies dawelu'r gynulleidfa a chanmol y gwaith roedd Iarll Bernstorff wedi ei wneud ar ran y Gynghrair yn yr Almaen pan oedd y mudiad yn amhoblogaidd yno: *In foul weather and in fair he has nobly stood at the helm, and his example has encouraged the friends of the League in Germany to stand together.* Pan anerchodd Bernstorff y gynulleidfa

o'r diwedd fe'i cymeradwywyd ganddynt, a derbyniodd gymeradwyaeth bellach pan ddychwelodd i'w sedd.

Roedd *The Times* wedi crybwyll Cyngres y Ffederasiwn yn Aberystwyth yn rhifyn 30 Mehefin ac wedi adrodd sylwadau Iarll Bernstorff yn y cyfarfod cyntaf, sef *the foreign policy of the German Republic was entirely dominated by the spirit of Locarno. They had no other policy. They were proud of the spirit of Locarno because it was inaugurated by Germany, who made the first proposals.* Ond yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a'r ymyrraeth, a oedd wedi cael sylw yn y papur ar 2 Gorffennaf, rhoddwyd mwy o sylw i'r Iarll yn ei olygyddol ar 9 Gorffennaf, gan ddweud, *the Bernstorffs bear an honoured name in German. Many members of the family are noted for their piety and integrity. But this particular Count Bernstorff has acquired a reputation of a very different kind. He was the Ambassador of the Imperial German Government in Washington during those harassing and contentious years when the United States were still neutral in the war. He is associated in the minds of European Allies with memories of the most unscrupulous pressure on American institutions, with espionage, and with every kind of unsavoury intrigue. The names of agents who were associated with him, and whose adventurous journeys during the war aroused a peculiar resentment, are still familiar. And his own name is especially identified with the inhuman submarine campaign which culminated in the sinking of the Lusitania. In these days Count Bernstorff poses as the advocate of the League spirit in Germany. That may be all very well, but it is intolerable that he should appear publicly in this country as an ardent humanitarian.*

Roedd cysgod hir y Rhyfel Byd Cyntaf wedi disgyn dros weithgareddau Aberystwyth.

Ar fore dydd Gwener, pan oedd cynrychiolwyr yr IFLNS yn trafod Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Phropaganda, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cenedlaethol Cymru o Gyngor

Tenth PLENARY CONGRESS of the INTERNATIONAL
FEDERATION of LEAGUE OF NATIONS SOCIETIES,
At ABERYSTWYTH.

The Local Committee Invites

to an exhibition of the Film "STAR OF HOPE,"
at the Imperial Cinema, Bath St.,
on FRIDAY, July 2nd, 1926, at 2-30 p.m.

*Le Comité d'Organisation du Congrès a Aberystwyth invite
M.M. les membres du Congrès a l'exposition du Film "Etoile
de l'Espérance" au Cinema imperial, Bath Street, Vendredi
le 2 juillet a 14h 30.*

Cynghrair y Cenhedloedd yn Ysgoldy Capel Seilo. Cyngor Cenedlaethol Cymru oedd hefyd yn gyfrifol am ginio swyddogol yn Neuadd y Plwyf a ddilynwyd am 2.30pm gan ddangosiad swyddogol o *Star of Hope* yn sinema'r Imperial, Stryd y Baddon. Ffilm ugain munud o hyd oedd *Star of Hope* am felltith rhyfel a gwaith da'r Gynghrair a gynhyrchwyd gan y Gynghrair ei hun yn 1925 gyda'r bwriad ei dangos mewn ysgolion fel rhan o gwrs ar Hanes y Byd, Ewrop neu Brydain. Cafodd trigolion Aberystwyth hefyd gyfle i wylïo'r ffilm gan ei bod wedi cael ei dangos *every evening*

during the week at the Pier Pavilion Cinema and at the Imperial Cinema in Bath Street, twice nightly at popular prices.

Yn dilyn y toriad hwn, ailgynullodd y cyfarfodydd tan 7.00pm, ac am 8.30 cynhaliodd y Prifathro J.H. Davies dderbyniad i'r cynrychiolwyr yng Ngholeg Prifysgol Cymru.

Er bod dydd Sadwrn yn ddiwrnod olaf y Gyngres, roedd yna gyfarfodydd tan 11.15am, gyda Heddwch Diwydiannol fel prif bwnc y cyfarfod olaf. Daeth cyfarfodydd Cyngor Cenedlaethol Cymru yn Seilo hefyd i ben yn ystod y bore gan dderbyn adroddiadau am 'Waith y Canghennau'. Gadawodd y cynrychiolwyr Aberystwyth am hanner dydd a gweinwyd cinio a the ar y trê'n a oedd i gyrraedd gorsaf Paddington am 6.00pm.

Yn Adroddiad Blynyddol Undeb Cymru Cynghrair y Cenhedloedd, 'Cymru a'r Gynghrair, 1927', nodwyd bod adroddiad swyddogol Cyngres Aberystwyth, ynghyd â'r trafodion a'r penderfyniadau, wedi ei gyhoeddi gan Ysgrifenyddiaeth Gyffredinol y Ffederasiwn ym Mrwsel, ac ar ôl cyfeirio at yr anawsterau roedd methu cyfarfod yn Dresden wedi eu hachosi i'r IFLNS, dyfynnir geiriau'r Ysgrifennydd Cyffredinol, yr Athro Théodore Eugene Césane Ruysen:

One cannot be sufficiently grateful to the British League of Nations Union, and especially to its Welsh National Council, for their devotion in solving the difficulty by extending an invitation to the Federation to hold the Congress at Aberystwyth.

Nowhere throughout the world has League of Nations propaganda been carried on more methodically, with more perseverance or enthusiasm than in Wales. The people in whose midst the Congress worked made an understanding and encouraging setting. The sessions were followed with a sustained interest by large numbers of the public. Even in the streets of Aberystwyth and in the tiniest hamlets through which cars carried delegates on various excursions, the men in the street and the children demonstrated to what extent in this little country right on the edge of the West of Europe systematic and impassionate propaganda has effected the education of public opinion.

Parhaodd David Davies i gefnogi ac i weithio dros Gynghrair y Cenhedloedd tan y 1930au pan ddechreuodd gael ei ddadurthio gan ei chyfeiriad. Cafodd ei wneud yn Farwn Davies yn 1932 am ei waith dros heddwch ac yn yr un flwyddyn sefydlodd Gymdeithas y Gymanwlad Newydd, gyda'r prif fwriad o hyrwyddo syniadau am Dribiwnlys Cyfiawnder Rhyngwladol a Heddlu Rhyngwladol. Yn ddiweddarach ymgorfforwyd rhai o syniadau Cymdeithas y Gymanwlad Newydd yn Siarter y Cenhedloedd Unedig. Yn 1934 addawodd David Davies £58,000 tuag at adeilad yng Nghaerdydd ar gyfer Cymdeithas Goffa Genedlaethol y Brenin Edward VII – mudiad a sefydlwyd gan David Davies ei hun ar gyfer trin a gwaredu'r diciâu – a Chyngor Cenedlaethol Cymru o Gynghrair y Cenhedloedd. Ei ddymuniad ar gyfer Teml Heddwch a lechyd Cenedlaethol Cymru oedd y byddai 'yn gofob i'r dynion dewr hynny o bob cenedl a roddodd eu bywydau yn y rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel'. Heddiw mae'r adeilad yn gartref i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Cymru ar Faterion Rhyngwladol; y ganolfan honno sy'n gyfrifol am brosiect *Cymru dros Heddwch* sy'n ymchwilio i'r modd mae Cymru wedi cyfrannu i'r ymgyrch heddwch yn ystod y 100 mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ni roddodd Ffederasiwn Rhyngwladol o Gymdeithasau Cynghrair y Cenhedloedd y gorau i'w bwriad o gyfarfod yn yr Almaen, ac yn 1927 fe gynhaliwyd y Gyngres ym Merlin.

Elgan Davies